Office for National Statistics

**The Resident**
<ADDRESS_LINE1>
<ADDRESS_LINE2>
<ADDRESS_LINE3>
<ADDRESS_LINE4>

Date of Issue
Reference Number
C111004978

Annwyl Breswylydd/Breswylwyr

Mae'ch aelwyd wedi cael ei ddewis i **gynrychioli'ch ardal leol drwy gymryd** rhan yn Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr. Hoffem gael eich cymorth i ddeall lefel troseddu yn y wlad.

Bydd yr arolwg yn gofyn a ydych chi wedi cael eich effeithio gan drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol a bydd hefyd yn gofyn am eich barn ar yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol. Mae'n cael ei gynnal gan Verian, sefydliad ymchwil annibynnol, ar ran y Swyddfa Ystadegau Gwladol. I gael rhagor o wybodaeth am yr arolwg, gan gynnwys **fideo gwybodaeth**, gallwch fynd i **www.crimesurvey.co.uk** neu sganio'r cod QR isod.

### Beth fydd yn digwydd nawr?

Arolwg wyneb yn wyneb yw hwn a fydd yn cael ei gynnal yn eich cartref. Bydd cyfwelydd sy'n cario cerdyn hunaniaeth yn ymweld â chi yn **yr wythnosau nesaf**. Gallant gynnal cyfweliad pan fyddant yn ymweld neu drefnu amser arall sy'n gyfleus.

### Pwy all gymryd rhan?

Bydd un person 16 oed neu'n hŷn yn eich aelwyd yn cael ei ddewis ar hap i gymryd rhan yn yr arolwg. Gwnewch yn siŵr fod pawb yn eich aelwyd yn gweld y llythyr hwn a'r daflen amgaeedig.

### Pam ddylai fy aelwyd i gymryd rhan?

Ystyrir yr Arolwg Trosedd yn eang yn un o'r ffynonellau gwybodaeth pwysicaf am dueddiadau trosedd yn y wlad. Bydd ymateb eich aelwyd yn helpu i lywio polisïau i leihau trosedd a gwneud ein cymunedau'n fwy diogel.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Verian drwy e-bost yn **crimesurvey@veriangroup.com** neu drwy radffôn ar **0800 051 0882**.

Mae'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi i ni'n cael ei thrin yn gyfrinachol, fel y cyfarwyddir gan y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Fel diolch i chi am eich help gyda'r arolwg pwysig hwn, rwyf wedi amgáu amddiffynnydd cerdyn credyd/debyd y gallwch ei ddefnyddio i helpu eich amddiffyn rhag twyll.

Yn gywir,

Jennet Woolford

**Jennet Woolford**
**Cyfarwyddwr Arolygon Poblogaeth, Cyfrifiad a Chymdeithasol**